Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

20 Tachwedd 2026

TEITL:	Dirprwyaeth i'r Is Bwyllgor Lles Economaidd ynghylch y Cynllun Twf Rhanbarthol a'r Gronfa Twf Lleol
AWDUR:	Alwen Williams, Prif Weithredwr, Uchelgais Gogledd Cymru Iain Taylor, Rhaglenni Strategol, Uchelgais Gogledd Cymru

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas craidd yr adroddiad hwn yw nodi cwmpas y gwaith a'r rôl sy'n ofynnol ar gyfer y CBC ac i ddirprwyo penderfyniadau a nodir yn Adran 2 isod. Mae cyllid ar gyfer Blynyddoedd 2 a 3 Rhaglen y Gronfa Twf Lleol yn gofyn am gytundeb ar Gynllun Cyflawni'r Gronfa Twf Lleol a Chynllun Twf Rhanbarthol.

1.2. Mae'n ofynnol i'r CBC wneud penderfyniad yng nghyfarfod 20 Tachwedd 2026 i ganiatáu cyflwyno dogfennau allweddol i Lywodraeth Cymru fel y gall cymeradwyaethau a chadarnhad fod yn eu lle ym mis Chwefror sy'n caniatáu parhau ag adnoddau refeniw allweddol (tua £1.3m) i'r CBC a phartneriaid cyflawni Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru o fis Ebrill 2027 ymlaen.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Dirprwyo cyfrifoldeb i Is-bwyllgor Lles Economaidd y Cyd-bwyllgor Corfforedig i ystyried a chymeradwyo cyflwyno Cynllun Cyflawni'r Gronfa Twf Lleol drafft ar gyfer Blwyddyn 2 a 3 (2027 – 2029) a rhoi unrhyw ddirprwyaethau pellach angenrheidiol yn eu lle i swyddogion UGC i gadarnhau'r Cynllun Cyflawni terfynol gyda Llywodraeth Cymru fel ei bod yn caniatáu i Lythyr Cynnig Grant LGF gael ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2027.

2.2. Dirprwyo cyfrifoldeb i Is-bwyllgor Lles Economaidd y Cyd-bwyllgor Corfforedig i ystyried a chymeradwyo cyflwyno Cynllun Twf Rhanbarthol drafft ac i roi unrhyw ddirprwyaethau pellach angenrheidiol yn eu lle i swyddogion UGC i gadarnhau sail y Cynllun Twf Rhanbarthol fel ei fod yn caniatáu i Lythyr Cynnig Grant LGF gael ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2027.

2.3. Dirprwyo cyfrifoldeb i Is-bwyllgor Lles Economaidd y Cyd-bwyllgor Corfforedig i gytuno ar y trefniadau gweinyddu rhanbarthol gyda Chyngor Gwynedd ar gyfer cyflawni'r Gronfa Twf Lleol ym Mlynyddoedd 2 a 3, gan adeiladu ar y trefniadau sy'n bodoli ym Mlwyddyn 1 (y flwyddyn ariannol gyfredol) gan gynnwys telerau Cytundeb Partneriaeth neu Gytundeb Rhwng Awdurdodau.

2.4. Dirprwyo cyfrifoldeb i Is-bwyllgor Lles Economaidd y Cyd-bwyllgor Corfforedig i gytuno, gyda'r chwe awdurdod lleol, ar y trefniadau ar gyfer cyflawni'r Gronfa Twf Lleol yn ystod Blynyddoedd 2 a 3, gan adeiladu ar y trefniadau sydd mewn grym ar gyfer Blwyddyn 1 (y flwyddyn ariannol bresennol), gan gynnwys telerau Cytundeb Partneriaeth, Cytundeb Cyllid Grant neu Gytundeb Rhwng Awdurdodau.

2.5. Dirprwyo cyfrifoldeb i Is-bwyllgor Lles Economaidd y Cyd-bwyllgor Corfforedig i lywodraethu a rheoli darpariaeth Cyllid Twf Lleol ym Mlynyddoedd 2 a 3, gan gynnwys pob penderfyniad sy'n ymwneud â threfniadau gweinyddu, cyllid, rhaglenni a phrosiectau, a chwblhau Cynllun Twf Rhanbarthol yn 2027.

2.6. Cymeradwyo ymdrechion parhaus i sicrhau hyblygrwydd darpariaeth, gan gynnwys trosglwyddo arian rhwng blynyddoedd a rhwng dyraniadau blaenoriaeth i ganiatáu rheoli adnoddau'n effeithiol.

2.7. Awdurdodi'r Prif Swyddog Gweithredol i gomisiynu gwaith ychwanegol i lywio, ategu a chryfhau Cynllun Twf Rhanbarthol Gogledd Cymru a'i ddarpariaeth, gan gynnwys gwaith ar y cyd â'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig eraill i rannu arfer gorau, cryfhau gallu darpariaeth rhanbarthol a gwella canlyniadau i gymunedau, o fewn cyllidebau cymeradwy ac yn unol â gofynion caffael perthnasol.

3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol bod cyfrifoldeb am y LGF yn trosglwyddo i'r CBC ar gyfer ail a thrydedd flwyddyn y rhaglen (2027/28 a 2028/29).

3.2. Mae cais yr Is-bwyllgor Lles Economaidd i gefnogi rheolaeth y Gronfa Twf Lleol o 2027/28 yn cyd-fynd â chyfrifoldebau'r Is-bwyllgor wrth arfer swyddogaeth lles economaidd y CBC.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae Cronfa Twf Lleol y Llywodraeth yn gronfa tair blynedd, a weinyddir gan Lywodraeth Cymru drwy ei Chynllun Buddsoddi LGF. Blwyddyn 1 yw'r flwyddyn ariannol gyfredol gyda Blwyddyn 2 (Ebrill 2027-Mawrth 2028) a Blwyddyn 3 (Ebrill 2028-Mawrth 2029). Bydd unrhyw gyllid ar ôl hynny yn dibynnu ar Adolygiadau Gwariant yn y dyfodol.

4.2. O 2027-28, bydd Llywodraeth Cymru yn dyfarnu cyllid yn uniongyrchol i'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig drwy lythyrau cynnig grant blynyddol. Bydd pob Cyd-bwyllgor Corfforedig wedyn yn arwain cynllunio rhanbarthol a dewis portffolio. Dyraniad dangosol y Gogledd yw £41.44m yn 2027–28 a £39.92m yn 2028–29. Mae pob blwyddyn yn cynnwys neilltuo cyfalaf ar draws Cymru gyda £5.37m ar gyfer y Gogledd. Mae'r cyllid hwn yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.

4.3. Yn yr Is-bwyllgor ar 2 Hydref cytunwyd y byddai Uchelgais Gogledd Cymru yn cynnal 'galwad am dystiolaeth' 4 wythnos gan sefydliadau partner, gan ofyn i bob partner nodi eu blaenoriaethau strategol ar gyfer lleihau bylchau cynhyrchiant, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn ardaloedd o amddifadedd a gwledig ledled y rhanbarth, a sut mae eu cynigion ar gyfer ymyrraeth yn cyd-fynd â fframwaith Llywodraeth Cymru. Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dod ag allbynnau o'r cam cychwynnol hwn o waith i'r Is-bwyllgor ar 13 Tachwedd i'w hadolygu'n gychwynnol.

4.4. Bydd gwaith ymchwil pellach yn cefnogi datblygu a chyflawni'r Cynllun Twf Rhanbarthol, gan gynnwys cydweithio â'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig eraill i gryfhau'r sylfaen dystiolaeth, rhannu arferion gorau, ac ystyried y rolau, y cyfrifoldebau a'r galluoedd sydd eu hangen ar gyfer datblygiad economaidd rhanbarthol effeithiol.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Defnyddio'r £200,000 o gyllid datblygu LGF/RGP a ddyfarnwyd i'r CBC i ddatblygu'r dogfennau angenrheidiol (gan gynnwys y Cynllun Twf Rhanbarthol 10 Mlynedd) a'r dull o reoli cronfeydd yr LGF yn ystod Blynyddoedd 2 a 3.

5.2. Mae angen gwaith datblygu pellach i adnabod a chytuno ar yr union ddyraniadau o'r 4% o adnoddau gweinyddol i'w rhannu rhwng y CBC, Cyngor Gwynedd a'r 6 Cyngor partner.

5.3. Mae'r CBC yn gyfrifol yn ariannol am y rhaglen. Y disgwyliad yw y bydd taliadau'n cael eu gwneud yn uniongyrchol gan y CBC i bartneriaid cyflawni, gyda'r atodlen taliadau a'r gefnogaeth wrth gefn yn cael eu darparu gan Gyngor Gwynedd.

5.4. Graddfa cyllid yr LGF ar gyfer Gogledd Cymru ar gyfer y ddwy flynedd olaf o'r rhaglen yw tua £40m y flwyddyn, sef cynnydd o tua £10m o gymharu â Blwyddyn 1.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Bydd yn ofynnol i'r CBC ymrwymo i Lythyr Cynnig Grant gyda Llywodraeth Cymru, y deallwn fod y telerau yn gyson â Llythyrau Cynnig Grant a dderbyniwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru.

6.2. Bydd y CBC yn ymrwymo i Gytundeb Partneriaeth (neu Gytundeb Rhwng Awdurdodau) gyda Chyngor Gwynedd ar gyfer swyddogaethau gweinyddiaeth a chydlynu rhanbarthol, ac i'r cytundebau angenrheidiol gyda phob un o'r 6 Cyngor sy'n rhan ohono; gallai'r rhain fod ar ffurf Cytundeb Partneriaeth, Cytundeb Rhwng Awdurdodau neu Gytundeb Cyllid Grant.

6.3. Bydd y CBC yn ymrwymo i Gytundebau Cyllido Grant ar gyfer rhaglenni a phrosiectau ac yn ymgymryd â phrosesau sicrwydd a Rheoli Cymorthdaliadau perthnasol.

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Mae'r dirprwyo arfaethedig i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd yn gyson â swyddogaeth lles economaidd y CBC, ac mae'n darparu llwybr llywodraethu priodol ar gyfer symud y Gronfa Twf Lleol a'r Cynllun Twf Rhanbarthol yn eu blaenau o fewn yr amserlen ofynnol. Dylai aelodau nodi cwmpas y dirprwyo arfaethedig sy'n cael ei geisio, yn enwedig y dirprwyo o ran llywodraethu a rheoli sydd wedi'i gynnwys ym mharagraff 2.4."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Er bod goblygiadau ariannol clir i Uchelgais Gogledd Cymru o'r rhaglen Cronfa Twf Lleol, y penderfyniad a geisir drwy'r adroddiad hwn yw dirprwyo penderfyniadau allweddol i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd. Nid oes unrhyw resymau o safbwynt ariannol i wrthwynebu'r cynnig hwn."